Pwyllgor Adfywio

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2017

PRESENNOL:	Y Mri. John Griffith, Carwyn Jones, Bob Parry OBE, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams
WRTH LAW:	Ysgrifennydd, Trysorydd. **Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)** Rheolydd Grantiau, Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Mri, R.Meirion Jones a J Arwel Roberts
HEFYD YN BRESENNOL:	Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn Mr. T.Ll. Hughes – Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

---

1 ETHOL CADEIRYDD

Ailetholwyd Mr. Bob Parry OBE yn Gadeirydd.

2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Mr. Alwyn Rowlands yn Is-Gadeirydd.

3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan :-

Mr. Alwyn Rowlands – datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais 8 Canolfan Hamdden Biwmares a'r cylch ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Mr. Ieuan Williams - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais 9 Cyngor Cymuned Llanfair ME ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, Mr. T.V. Hughes - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais 22 Cwmni Tref Llangefni ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, Mr. T.Ll. Hughes - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais 2 Cyngor Tref Caergybi a Chais 27 – Cymdeithas Cae Cybi ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Rheolydd Grantiau – datganiad o ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais 4 Cymunedau'n Gyntaf Môn.

4 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Adfywio fel a ganlyn:-

- 24 Chwefror, 2016
- 3 Mawrth, 2016

(Mabwysiadwyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ar 15 Mawrth, 2016)

5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a oedd ynghlwm."

6 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ar y ceisiadau a dderbyniwyd am Grantiau Mwy.

Dywedodd y Trysorydd bod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd 2016, wedi penderfynu rhyddhau swm o £350k tuag at Grantiau Mwy yn 2017/18. Yn ystod yr wythnosau'n cychwyn ar 21 Tachwedd a 28 Tachwedd, hysbysebwyd y grantiau a oedd ar gael gan Ymddiriedolaeth Ynys Môn am symiau dros £8,000 i gynorthwyo gyda phrosiectau cyfalaf mawr neu i gyllido gwasanaethau penodol a fyddai o fudd i bobl Ynys Môn. Er mwyn medru ystyried y ceisiadau am grantiau, rhaid iddynt gwrdd ag o leiaf un o amcanion yr Ymddiriedolaeth fel y cânt eu pennu yng Ngweithred yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Dyma'r amcanion hynny:-

- Cymorth i grwpiau difreintiedig
- Adfywio'r economi leol
- Gwella sgiliau
- Lleihau tlodi
- Gwarchod treftadaeth
- Gwarchod yr amgylchedd
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau'n gysylltiedig â chwaraeon, iechyd a lles y gymuned
- Datblygu ysbryd a llesiant cymunedol

Derbyniodd Ymddiriedolaeth Ynys Môn 31 o geisiadau erbyn y dyddiad cau, sef 6 Ionawr, 2017. Roedd manylion am y ceisiadau ynghlwm fel Atodiad A yr adroddiad. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried y ceisiadau, roedd y Swyddogion wedi eu sgorio ymlaen llaw yn erbyn cyfres o feini prawf a oedd eisoes wedi cael eu defnyddio i asesu'r ceisiadau.

Derbyniodd y Pwyllgor fanylion ynghylch cefndir y ceisiadau gan y Swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:-**

- **Rhoi sylw i 12 cais mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn a bod Aelodau'r Pwyllgor Adfywio'n cael copïau o'r ceisiadau a'r matrics sgorio;**
- **Bod y sawl gyflwynodd 9 cais yn cael eu cynghori i gyflwyno eu ceisiadau am grant bychan gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol;**
- **Rhoi'r awdurdod i'r Trysorydd hysbysu'r sawl gyflwynodd y 10 cais arall bod eu ceisiadau wedi bod yn aflwyddiannus.**

Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS
Cadeirydd